**LC459**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 OS 812 (Cy. 92)**

Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion mewn perthynas â gwarchod plant a darparu gofal dydd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Tynnwyd y pwyntiau a ganlyn i sylw'r Gweinidog o dan RhS 11.4.

Mae'r Gweinidog wedi ymateb, mewn llythyr dyddiedig 9 Mai 2002. Ceir copi o'r llythyr hwnnw fel atodiad i'r adroddiad hwn.

**Rheoliad 4(1) a (2)**

Gofynnwyd ai'r amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2) yw'r unig amgylchiadau lle na chaiff person ei ystyried yn "addas" o dan baragraff (1). Nodwyd y geiriad mwy penodol yn rheoliad16(2) –

- "(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn addas i ofalu am blant perthnasol oni bai ... …"

Gofynnwyd cwestiwn arall, sef os na fwriadwyd i reoliad 4(2) gwmpasu'r holl amgylchiadau lle y gallai person beidio â bod yn "addas" o dan baragraff (1), a yw'r Gweinidog yn fodlon bod rheoliad 4(1) yn darparu sail ddigon manwl ar gyfer darpariaeth y byddai methu â chydymffurfio â hi yn dramgwydd troseddol o dan reoliad 24?

Er gwaethaf y gwahanol eiriad a ddefnyddir, mae'n amlwg o ymateb y Gweinidog na fwriedir i'r egwyddor cymhwyso fod yn wahanol yn rheoliadau 4(2) a 16(2). Hefyd, mae'r

Gweinidog yn cynnig y gellir sicrhau bod y gwaharddiad yn rheoliad 4(1) yn cael ei gymhwyso'n gywir drwy gyfeirio at y meini prawf yn, a thrwy gymhwyso, rheoliad 4(2).

Ar ôl gwrando ar ymateb y Gweinidog, derbynnir nad yw unrhyw anghysondeb rhwng fformat rheoliadau 4(2) a 16(2) yn deillio o ddrafftio diffygiol. Yn unol â hynny, gwahoddir y Cynulliad, yn syml, i roi sylw arbennig i reoliad 4 ar y sail bod angen esboniad pellach ar ei ffurf a'i ystyr, a bod yr esboniad hwnnw bellach wedi'i roi.

**Rheoliad 12(c)**

Yn ôl y rheoliad hwn, dylai "risgiau diangen" gael eu dileu "i'r graddau y mae hynny'n bosibl". Codwyd y cwestiwn, felly, os yw risg yn "ddiangen", oni ddylai bob amser fod yn bosibl ei dileu?

Esboniodd y Gweinidog mai'r rheswm am y ddarpariaeth hon yw er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gynnal asesiad o risg, ond mae'n derbyn y gallai fod modd ailystyried y geiriad yng ngoleuni profiad.

Unwaith yn rhagor, gwahoddir y Cynulliad, yn syml, i roi sylw arbennig i'r ddarpariaeth hon fel un yr oedd angen esboniad pellach arni, ac mae'r esboniad hwnnw bellach wedi'i roi.

**Rheoliad 13(2)**

Gofynnwyd sut yr oedd y ddarpariaeth hon yn "ddarostyngedig i" baragraff (3) o gofio nad ymddengys fod paragraff (3) ond yn darparu diffiniad at ddibenion paragraff (2).

Mae'r Gweinidog yn cynnig bod paragraff (2) yn "ddarostyngedig i" baragraff (3) yn yr ystyr bod paragraff (3) yn rhoi ystyr benodol i "rhagnodwyd", ond mae'n derbyn y gallai'r geiriau fod wedi'u hepgor.

Unwaith yn rhagor, gwahoddir y Cynulliad, yn syml, i roi sylw arbennig i'r ddarpariaeth hon fel un yr oedd angen esboniad pellach arni, ac mae'r esboniad hwnnw bellach wedi'i roi.

**Rheoliad 18**

Yn ôl paragraff (1)(b) mae gofyn cadw'n ddiogel bob cofnod yn y cofnodion am dair blynedd o'r dyddiad y gwnaed y cofnod diwethaf. Gofynnwyd a oedd hyn i fod i feddwl bod yn rhaid cadw'r cofnodion am dair blynedd o'r dyddiad y gwnaed y cofnod diwethaf, beth

bynnag fo natur y cofnod hwnnw.  Os felly, gan y byddai cofnodion yn cael eu gwneud gydol yr amser y byddai'r person cofrestredig yn cyflawni'r gwaith dan sylw, gofynnwyd oni fyddai wedi bod yn gliriach i gynnwys y gofyniad ym mharagraff (3) fel bod gofyn cadw'r cofnodion am dair blynedd o'r dyddiad y mae'r person cofrestredig yn peidio â gweithredu fel gwarchodwr plant neu'n peidio â darparu gofal dydd?

Mae'r Gweinidog yn esbonio mai effaith rheoliad 18(1)(b) yw sicrhau bod cofnodion, beth bynnag fo natur y cofnodion, yn ymestyn yn ôl o leiaf dair blynedd.  Mae rheoliad 18(3) yn ofyniad ar wahân sy'n sicrhau bod cofnodion o'r fath, fel y maent yn bodoli pan fo'r person cofrestredig yn peidio â gweithredu fel gwarchodwr plant neu'n peidio â darparu gofal dydd, yn cael eu cadw heb derfyn amser.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar am yr esboniad hwn ac mae'n derbyn y gellir ystyried y ddarpariaeth fel un sy'n cael yr effaith hon.  Nid oes unrhyw bwyntiau yn codi felly mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon y mae angen gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Rheoliad 21(1)**

Nodwyd ei bod yn ymddangos bod anghysondeb rhwng y ddau destun gan nad oedd "in relation to relevant premises" wedi'i gynnwys yn y testun Cymraeg.

Mae'r Gweinidog yn derbyn bod ychydig o anghysondeb rhwng y ddau destun ac yn dweud bod hyn wedi'i nodi fel rhywbeth i'w gywiro pan ddaw cyfle addas.

Gwahoddir y Cynulliad felly i roi sylw arbennig i'r anghysondeb hwn, ond derbynnir bod modd ei adael tan y cwyd cyfle addas i'w gywiro.

**Atodlen 3**

Gofynnwyd a oedd unrhyw reswm pam fod paragraffau 2 a 3 yn gofyn yn benodol am "gyfeiriad cartref", tra nad yw paragraffau 1 a 4 yn cyfeirio at gyfeiriad "cartref".

Mae'r Gweinidog yn esbonio nad yw "cyfeiriad cartref" yn ymddangos ym mharagraff 1 gan y gallai'r person cofrestredig fod yn gorff corfforaethol.  O ran paragraff 4, mae'r Gweinidog yn cyfaddef y gellid bod wedi cynnwys "cyfeiriad cartref" er nad yw'r ffaith nad yw yna yn effeithio ar rym y paragraff.

Wrth ddrafftio'r darpariaethau hyn, ymddengys na thalwyd sylw arbennig i'r angen, yn ddelfrydol, i sicrhau bod y term dan sylw yn cael ei ddefnyddio'n gyson. Byddai wedi bod yn rhesymegol cynnwys "cyfeiriad cartref" ym mharagraff 4. Yn ogystal, gan fod y cyfeiriad cartref yn amlwg yn mynd i fod yn berthnasol mewn llawer o achosion sy'n dod dan baragraff 1, byddai cyfeiriad yn y paragraff hwnnw wedi sicrhau cysondeb, ynghyd â "lle y bo'n briodol", o bosibl, mewn perthynas â'r cyfeiriad at y "person cofrestredig".

Nid ystyrir ei bod yn briodol casglu mai drafftio diffygiol sydd ar fai, fodd bynnag, ac felly ni wahoddir y Cynulliad ond i roi sylw arbennig i'r ddarpariaeth hon fel un yr oedd angen esboniad pellach arni, ac mae'r esboniad hwnnw bellach wedi'i roi.

**Sylwadau cyffredinol**

**Rheoliad 4(4)**

Mae troednodyn (a) yn datgan nad yw adrannau 113 ac 115 "wedi'u dwyn i rym eto". Gan y gall pethau newid, fodd bynnag, byddai'n fwy boddhaol pe bai'r troednodyn yn datgan nad oedd yr adrannau hynny wedi'u dwyn i rym adeg gwneud y rheoliadau.

**Rheoliad 5(2)**

Nid ymddengys fod angen yr "as the case may be" cyntaf.

**Rheoliad 7(1)(b)**

Dylai "driniaeth" fod yn "triniaeth".

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

21 Mai 2002

**Jane Hutt AM**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Our ref: JH/01267/02

Mr Mick Bates AM
Chair, Legislation Committee
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

9 May 2002

Dear Mick,

**THE CHILD MINDING AND DAY CARE (WALES) REGULATIONS 2002 NO. 812(W.92) (LC459)**

I refer to your letter of 23 April 2002 in connection with the draft report of the Legislation Committee. Comments on the matters raised are as set out below:-

Regulation 4(1) and (2):- the intention behind the drafting of the provisions was to provide that no-one should be a childminder or day care provider unless suitable to look after children under the age of eight. It is acknowledged that regulation 16(2), which sets out the circumstances in which workers are unsuitable, refers back specifically to regulation 16(1) in terms ("for the purposes of paragraph (1) ....") and that regulation 4(2) does not contain such a specific reference back although it does use the formulation - "A person is not so suitable ..." which, in the context, clearly refers back to regulation 4(1). In any event, in practice it would be the intention that the Care Standards Inspectorate for Wales would rely on the criteria set out in regulation 4(2) in considering the suitability of a person or body and that the regulation can in the circumstances be enforced with sufficient certainty. It should be noted that Regulation 4 refers to the suitability of persons to be registered, while Regulation 16 refers to the suitability of persons to look after children, for example as staff of the registered person. Regulation 4 as amplified by the provisions of Schedule 2 is considered to provide a sufficiently precise and comprehensive basis for creating the offence.

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Regulation 12 (c) – It is accepted that the description of risks in this context might benefit from reconsideration in the light of experience. This paragraph is necessary and worthwhile because it creates an onus on providers to undertake risk assessment.

Regulation 13(2) – sub-paragraph (2) is "subject to paragraph (3)" in so far as the definition of "prescribed" in paragraph (3) limits the requirements relating to administration of medicines in paragraph (2)(b) to those which are prescribed as defined in paragraph (3). It is accepted that the provision would arguably have worked equally well without using "subject to paragraph (3)".

Regulation 18 – the committee queries the provision requiring entries in records maintained by a registered child minder or day care provider to be preserved for 3 years from the date the last entry was made. The effect of this is to ensure that records, whatever the nature of the entries, always go back at least 3 years. Paragraph (3) relates to the specific circumstances where a registered person ceases to act in that capacity. When that occurs the intention is that the records existing at that date are kept securely and made available for inspection. There is no time limit set in relation to that requirement.

Regulation 21(1) – the minor discrepancy between the English and Welsh texts is noted. This is appropriate for amendment to ensure that the Welsh mirrors the English, when a suitable opportunity arises.

Schedule 3 – The words "home address" are not used in paragraph 1 as a registered person could be a corporate body in the case of a day care provider. The expression could have been used in paragraph 4 but the requirement as it stands is considered to be workable.

The general observations in the report are noted.

Yours,

Jane